# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

**2010 mccc 4**

## 5 Pŵer i ddiwygio Atodlen 1

(1) Mae'r adran hon yn effeithiol os bydd y **[**[F1]Senedd**]** yn penderfynu y dylid diwygio Atodlen 1 er mwyn—

(a) ychwanegu swydd neu ddisgrifiad o berson a nodir ym mharagraff 1 o'r Atodlen honno,

(b) dileu swydd neu ddisgrifiad o berson o'r fath, neu

(c) newid disgrifiad swydd neu berson o'r fath.

(2) Caiff y Cwnsler Cyffredinol, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlen 1 er mwyn rhoi ei effaith i benderfyniad o'r fath.

(3) Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan is-adran (2) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(4) Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol, pan y'i hysbysir yn ysgrifenedig gan y Llywydd bod y **[**[F1]Senedd**]** wedi gwneud penderfyniad o dan is-adran (1)—

(a) arfer y pŵer a roddir iddo gan is-adran (2), a

(b) gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, Adran 5.